Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o Sicrwydd y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2023/24

Ystyriodd y Bwrdd Gynllun Taliadau 2023/24 yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Medi, 3 Tachwedd ac 1 Rhagfyr 2022. Ystyriodd y Bwrdd y taliadau a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac yn benodol i'r Cyfarwyddwr Strategol a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gyflogwyd i ddarparu sicrwydd allanol bod systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i lunio'r wybodaeth a gyhoeddir am y taliadau cyfanwerthu'n gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Wedi cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd eithaf ein dealltwriaeth, bod y taliadau a nodir yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru 2023/24 yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni'n rhwym iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall.

Paratowyd y ddogfen hon, a'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol, gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a systemau rheoli priodol, ac fe'u paratowyd yn unol i'r safonau y gellid eu disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Gan ystyried y 'Rheolau ar gyfer Cynlluniau Taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ddiwethaf yn Hydref 2021, rydyn ni o'r farn bod ein taliadau'n gyson â'r gofynion hyn, o gymryd rheolau'r Cynllun Taliadau fel cyfanwaith.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r taliadau newydd ar filiau amrywiaeth o fathau o gwsmeriaid.

Gwthiodd y ffigur CPI(H) ar gyfer Tachwedd, sef 9.3%, filiau i fyny ar gyfer 2023/24.

O ganlyniad, bydd taliadau 2023/24 yn peri i filiau gwahanol fathau o gwsmeriaid gynyddu fel a ganlyn:

— cwsmeriaid gwasanaeth deuol anfesuredig 9.4%,
— cwsmeriaid domestig â gwasanaeth deuol mesuredig: 8.0%,
— safleoedd annomestig mesuredig: 9.7%,
— safleoedd annomestig anfesuredig: 10.3%,
— tariffau diwydiannol defnyddwyr mawr: 9.6-9.7%,
— dŵr gwastraff yn unig â chysylltiad "dŵr budr yn unig": 12.1%.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod strategaethau priodol yn bodoli ar gyfer cyfathrebu a delio â'r cwsmeriaid hyn, ac amlinellir y rhain yn y datganiad o newidiadau o bwys.

Yn benodol, mae'r Bwrdd wedi cydsynio i gyflwyno cynllun newydd a fydd yn cynnig rhyddhad dros dro ar filiau cwsmeriaid domestig sy'n wynebu anawsterau ariannol byrdymor, i gyd-fynd â'n tariffau cymdeithasol.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau, fel y nodir isod.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 1 Rhagfyr 2022, dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb i'r Cadeirydd roi sêl bendith terfynol i Gynllun Taliadau 2023/24 (a'r wybodaeth ategol angenrheidiol), yn dilyn cyhoeddiad y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) ar 14 Rhagfyr 2022.

**Alastair Lyons**
**Cadeirydd**

Ar ran y Bwrdd
19 Rhagfyr 2022